INSHOU53

Recriwtio gwirfoddolwyr a’u rheoli

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu strategaethau, polisïau a gweithdrefnau i recriwtio gwirfoddolwyr a'u rheoli.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi cyfleoedd i gynnwys gwirfoddolwyr mewn ffordd sy'n ategu nodau eich sefydliad
2. gwneud cynigion i gydweithwyr ynglŷn â diben a manteision cynnwys gwirfoddolwyr yn eich sefydliad
3. dilyn gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr a'u rheoli
4. cytuno â chydweithwyr a chwsmeriaid perthnasol ynglŷn â sut bydd y sefydliad yn recriwtio gwirfoddolwyr a'u rheoli
5. datblygu a gweithredu systemau a gweithdrefnau i recriwtio gwirfoddolwyr a'u rheoli yn unol â gofynion statudol a sefydliadol perthnasol
6. nodi unigolion a grwpiau blaenoriaeth o gyfranogwyr ar gyfer gwirfoddoli
7. nodi cyfleoedd i ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau gwirfoddol
8. nodi gofynion datblygu gwirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr
9. cadarnhau bod cymorth a hyfforddiant ar gael i wirfoddolwyr a darpar wirfoddolwyr
10. datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith gyda gwirfoddolwyr yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
11. adolygu'r trefniadau gwirfoddoli gyda chydweithwyr perthnasol
12. gweithredu a rheoli gwelliannau i'r ffordd y mae gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio a'u rheoli

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y rhesymau dros gynnwys gwirfoddolwyr yn eich sefydliad
2. sut i gyfleu amcanion cynnwys gwirfoddolwyr yn eich sefydliad gyda chwsmeriaid a chydweithwyr
3. y gofynion statudol a sefydliadol perthnasol i amddiffyn y gwirfoddolwyr, cwsmeriaid a'ch sefydliad
4. y ffordd orau o recriwtio gwirfoddolwyr, eu cynnwys a'u rheoli
5. yr ystod o brosesau recriwtio ar gyfer gwirfoddolwyr
6. sut i ddatblygu'r strategaethau, y polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr a'u rheoli
7. sut i sefydlu trefniadau newydd gyda sefydliadau partner yn unol â'ch gweithdrefnau sefydliadol
8. yr egwyddorion, yr ymarfer a'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth
9. sut i nodi gofynion datblygu gwirfoddolwyr
10. yr ystod o gyfleoedd datblygu a gynigir i wirfoddolwyr
11. yr opsiynau a'r adnoddau perthnasol sydd ar gael ar gyfer cynorthwyo gwirfoddolwyr
12. y dulliau perthnasol o adolygu'r trefniadau gwirfoddoli
13. sut i weithredu a rheoli gwelliannau i ddulliau recriwtio gwirfoddolwyr a'u rheoli

Recriwtio gwirfoddolwyr a'u rheoli

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2019
Indicative Review Date	Ionawr 2024
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTH421
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr; Cynorthwy-ydd Tai; Cynorthwy-ydd Cymdogaeth; Gweinyddwr Tai; Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo; Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio); Trafodwr Gosod Llety; Cynorthwy-ydd Refeniw; Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfres/Set	Tai
Geiriau Allweddol	eiddo; ymchwilio; delio; torri cytundeb; llety; tenantiaeth; trwydded; lesddeiliad; cytundebau; cwsmeriaid; dogfennaeth; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; diogel; trefnu; datblygu; strategaethau; polisïau; gweithdrefnau;